# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar ansawdd addysg yn

## Ysgol Ffridd y Llyn
## Cefnddwysarn
## Gwynedd
## LL23 7HE

**Rhif yr ysgol: 6612220**

**Dyddiad yr arolygiad: 01/02/2010**

**gan**

**Clive Phillips**
**79271**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2010**

**O dan rif contract Estyn: 1110709**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

94. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Darperir gwasanaethau ar y cyd sy‟n cydymffurfio â‟r gofynion. Gwahoddir gweinidogion lleol a chynrychiolwyr o‟r Coleg Diwynyddol lleol i‟r ysgol yn gyson i arwain cyd-addoli, a gwna‟r rhain gyfraniad da i ddatblygiad ysbrydol disgyblion. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio‟n dawel ac i gyfrannu‟n hyderus yn y sesiynau cyd-addoli megis drwy adrodd eu gweddïau eu hunain a rhannu profiadau.

95. Mae‟r ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i hyrwyddo datblygiad moesol disgyblion a threiddia‟r agwedd hon drwy holl agweddau o fywyd yr ysgol. Gwneir hyn yn hynod lwyddiannus drwy feithrin ymwybyddiaeth mewn disgyblion o‟r hyn sy‟n dderbyniol ac yn annerbyniol, a thrwy hybu gwerthoedd cadarn, rhoi pwyslais ar ddangos parch, gonestrwydd a chwrteisi tuag at eraill. Mae hyn, ynghyd â‟r ethos wâr a greir o fewn yr ysgol, yn nodwedd ragorol o‟r ddarpariaeth.